WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 217A2014



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan John Roberts ac Andy Bruce o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Gwnaed cynnydd da gan yr Awdurdod i gyflawni gwelliannau yn y meysydd hynny a nodwyd yn flaenoriaeth uchel 7

Cyhoeddodd yr Awdurdod asesiad addysgiadol o'r graddau y cyflawnodd ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 12

Mae cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwella yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac fe'u hategir gan ddull addawol o werthuso ei drefniadau llywodraethu a rheoli ei asedau 13

Mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o heriau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf ond mae'n rhy gynnar i ddweud i ba raddau y byddant yn effeithio ar allu'r Awdurdod i sicrhau gwelliannau 16

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 20

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 21

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 22

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 24

# Adroddiad cryno a chynigion ar gyfer gwella

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn ymdrin â chammau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13 a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14.

2 Cafwyd bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn 2012-13 i gyflawni gwelliannau yn y meysydd hynny a nodwyd yn flaenoriaeth uchel, yn benodol:

- awgryma'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr Awdurdod fod pobl wedi cael eu hysbrydoli gan yr hyn sydd gan y Parc i'w gynnig a'u bod yn ei werthfawrogi;
- er na lwyddodd yr Awdurdod i gwblhau ailasesiad llawn o'i rwydwaith o lwybrau, roedd nifer yr opsiynau mynediad wedi parhau i gynyddu, er bod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o lwybrau'r Parc;
- cyn i fesurau perfformiad mwy ystyrlon gael eu datblygu ar gyfer gwasanaethau cynllunio ledled Cymru, llwyddodd yr Awdurdod i ddangos ei fod yn delio â materion yn gynt a bod ymgeiswyr yn fodlon ar y gwasanaeth yn gyffredinol;
- roedd yr Awdurdod yn parhau i hyrwyddo mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a defnyddio'r Parc ac mewn nifer o achosion roedd hyn wedi arwain at fwy o gyfranogiad.

3 Nodwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi cyhoeddi asesiad cynhwysfawr o'r graddau y llwyddodd i gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13.

4 Yn olaf, cafwyd bod cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwella yn ystod 2013-14 yn canolbwyntio ar ganlyniadau a'u bod wedi'u hategu gan ddull addawol o werthuso ei drefniadau llywodraethu a rheoli ei asedau.

5 Mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o heriau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf ond mae'n rhy gynnar i ddweud i ba raddau y bydd y rhain yn effeithio ar allu'r Awdurdod i gyflawni gwelliannau.

## Chynigion ar gyfer gwella

6 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn ond ceir un cynnig ar gyfer gwella isod.

| | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Awdurdod ymestyn ei bolisi rheoli asedau er mwyn rhoi mwy o fanylion a darlun ehangach o faint, natur a pherfformiad y portffolio. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion;
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwnaed cynnydd da gan yr Awdurdod i gyflawni gwelliannau yn y meysydd hynny a nodwyd yn flaenoriaeth uchel

11 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar berfformiad yr Awdurdod yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013. Rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny a nodwyd gan yr Awdurdod fel amcanion gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol ac ar y dystiolaeth sydd ar gael a gasglwyd gan yr Awdurdod a allai ddangos pa un a gyflawnwyd yr amcanion hyn ai peidio. Roedd yr Awdurdod wedi bwriadu cyflawni pedwar amcan gwella blynyddol yn ystod 2012-13, pob un ohonynt wedi'i gynllunio i gyfrannu at y gwaith o gyflawni un neu fwy o'r wyth canlyniad corfforaethol tymor hwy a nodwyd ganddo.

### Awgryma'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr Awdurdod fod pobl wedi cael eu hysbrydoli gan yr hyn sydd gan y Parc i'w gynnig a'u bod yn ei werthfawrogi

12 Yn ystod 2012-13, cynhaliodd yr Awdurdod nifer o arolygon ac ymarferion ymgynghori gydag ystod eang o randdeiliaid. Canolbwyntiodd y mentrau hyn ar nifer o agweddau ar y broses o ddarparu gwasanaethau ac fe'u cynlluniwyd i ddangos i ba raddau yr oedd yr awdurdod yn monitro ac yn gwella lefel y gwasanaeth i gwsmeriaid a boddhad cwsmeriaid. Mae gwybodaeth am berfformiad ar gyfer 2012-13 sydd â chyswllt uniongyrchol â'r amcan gwella hwn yng nghynllun gwella'r Awdurdod yn cynnwys:

- dim ond dau o'r 248 o ymwelwyr a arolygwyd yng Nghastell Henllys a ddywedodd nad oedd eu hymweliad wedi bodloni eu disgwyliadau neu ragori arnynt, a dywedodd athrawon a ddefnyddiodd raglen addysg Castell Henllys fod 82 y cant o'r ymweliadau wedi ysbrydoli eu disgyblion;
- dywedodd dros 80 y cant o'r ymwelwyr â chanolfan ymwelwyr Oriel y Parc a arolygwyd eu bod wedi mwynhau eu hymweliad;
- dangosodd canlyniadau arolwg o'r gwasanaeth cynllunio[1] fod o leiaf 75 y cant o'r ymgeiswyr cynllunio yn fodlon neu'n fodlon iawn ar agweddau amrywiol ar y gwasanaeth a ddarperir.

13 Cyhoeddwyd canlyniadau arolwg o Banel Dinasyddion lleol ym mis Mawrth 2013. Dangosodd yr arolwg hwn fod 76 y cant o aelodau'r panel o'r farn bod gwasanaethau'r Awdurdod yn dda neu'n ardderchog ac mai dim ond pump y cant ohonynt yn gyffredinol oedd o'r farn eu bod yn anfoddhaol.

14 Er nad yw'n fesur 'boddhad' mewn gwirionedd, cydnabu'r Awdurdod fod ei allu i ysbrydoli ymwelwyr â'r Parc a defnyddwyr ei wasanaethau yn fesur pwysig o berfformiad. Datblygodd yr Awdurdod, ar y cyd â'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru, fesur perfformiad mewn perthynas â'r agwedd hon ychydig flynyddoedd yn ôl. Yn 2012-13, cofnododd 78 y cant o grwpiau ysgol sgôr ysbrydoli o 10 neu fwy[2]. Cofnodwyd yr un sgôr ar gyfer 2011-12 ac mae'n cymharu â tharged o 75 y cant a bennwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2012-13. Yn yr un modd, awgrymodd arolygon a gynhaliwyd gan yr Awdurdod o'r grwpiau ysgol hynny a gymerodd ran yn ei raglen Mynd a Dod[3] i ysgolion fod 83 y cant o'r grwpiau o'r farn bod y gweithgarwch wedi eu hysbrydoli.

1 Dim ond 23 y cant o ymgeiswyr cynllunio a ymatebodd i'r arolwg.
2 Mae sgorau ysbrydoli yn amrywio o un i 11, gydag 11 yn cynrychioli'r lefel uchaf o ysbrydoliaeth.
3 Mae grwpiau ysgol yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chadwraeth.

## Er na lwyddodd yr Awdurdod i gwblhau ailasesiad llawn o'i rwydwaith o lwybrau, roedd nifer yr opsiynau mynediad wedi parhau i gynyddu, er bod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o lwybrau'r Parc

15 O ganlyniad i ymarfer ar y cyd gan bob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, canfu'r Awdurdod ei fod yn defnyddio meini prawf gwahanol i asesu a oedd ei lwybrau ar agor a pha un oedd modd eu defnyddio. Gan ddefnyddio ei hen feini prawf, roedd yr Awdurdod wedi nodi bod y ffigur mor uchel ag 87 y cant. Ar ôl defnyddio'r meini prawf diwygiedig, gostyngodd y ffigur hwn i 70 y cant. Pennodd yr Awdurdod amcan gwella uchelgeisiol iddo'i hun o gynyddu'r ffigur hwn i 85 y cant unwaith eto yn ystod 2012-13.

16 Fodd bynnag, ni lwyddodd yr Awdurdod i ddarparu asesiad pendant, er iddo amcangyfrif bod canran y llwybrau sydd ar agor ac y gall y cyhoedd eu defnyddio wedi cynyddu i 75 y cant o leiaf yn ystod 2012-13. Mae arolwg llawn ar waith ond, oherwydd natur a maint y dasg, efallai na fydd asesiad terfynol ar gael tan yn ddiweddarach yn 2014. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr agwedd hon ac ar wella cyflwr llwybrau lle y bo angen.

17 Er bod yr Awdurdod ar ei hôl hi o ran gwaith i fesur ei lwybrau, mae wedi sicrhau na chwtogwyd ar hyd hawliau tramwy sy'n addas i bobl lai abl ac wedi darparu a hyrwyddo cyfleoedd cerdded cylchol o fewn 500 metr i o leiaf 45 o aneddiadau o fewn y Parc.

18 Er gwaetha'r mentrau hyn, awgryma gwybodaeth o ddyfeisiau cyfrif yr Awdurdod ei hun mewn mannau penodol fod llai o ddefnydd wedi'i wneud o lwybrau'r Parc yn ystod 2012-13 na'r flwyddyn flaenorol. Awgryma tystiolaeth anecdotaidd fod hyn o bosibl yn gysylltiedig â'r tywydd.

## Cyn i fesurau perfformiad mwy ystyrlon gael eu datblygu ar gyfer gwasanaethau cynllunio ledled Cymru, llwyddodd yr Awdurdod i ddangos ei fod yn delio â materion yn gynt a bod ymgeiswyr yn fodlon ar y gwasanaeth yn gyffredinol

19 Amcan gwella blynyddol arall a bennwyd gan yr Awdurdod ei hun ar gyfer 2012-13 oedd gwneud gwaith pellach i ddatblygu a gwella perfformiad gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried opsiynau i ddatblygu mesurau perfformiad newydd ar gyfer gwasanaethau cynllunio ledled Cymru. Mae'n ddigon posibl y caiff y mesurau hyn eu llywio gan ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Cynllunio drafft a'i chynigion i foderneiddio'r system gynllunio yng Nghymru. At hynny, mae swyddogion o'r Awdurdod wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer cytuno ar ddangosyddion perfformiad newydd a mwy ystyrlon.

20 Yn y cyfamser, mae'r Awdurdod wedi dewis ei ddangosyddion perfformiad ei hun er mwyn ei helpu i ddarparu tystiolaeth i ddangos bod yr amcan hwn wedi'i gyflawni. Mae llawer o'r dangosyddion hyn yn rhai traddodiadol a ddefnyddiwyd gan bob gwasanaeth cynllunio yng Nghymru i fesur perfformiad.

21 Er bod canlyniadau blwyddyn lawn ar gyfer canran y ceisiadau a benderfynwyd o fewn wyth wythnos dri y cant yn is na'r targed o 70 y cant a bennwyd gan yr Awdurdod ei hun, roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i leihau'r ôl-groniad o geisiadau hŷn, mwy cymhleth. Fodd bynnag, dangosodd canlyniadau blwyddyn lawn welliant ar y 65 y cant a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan olygu bod yr Awdurdod wedi symud o'r 16eg safle i'r 13eg safle o ran perfformiad o blith y 25 o awdurdodau cynllunio yng Nghymru.

22 Mae pa mor gyflym y caiff gwasanaethau eu darparu yn parhau i fod yn un o'r mesurau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i asesu perfformiad awdurdodau cynllunio. Yn 2012 13, atebodd yr Awdurdod 67 y cant o ymholiadau cyn gwneud cais o fewn ei darged o 30 diwrnod gwaith. Mae'r Awdurdod yn cyfaddef, gan nad oedd y data ar gyfer 2011-12 yn ddibynadwy, ei bod yn anodd cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, llwyddwyd i leihau'r amser cyfartalog a gymerwyd i ateb yr ymholiadau hyn yn ystod y flwyddyn. Mae'r Awdurdod yn cau achosion gorfodi yn llawer cynt na'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall. Yn 2012-13, caeodd 89 y cant o achosion o fewn 12 wythnos, o gymharu â 53 y cant yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a 22 y cant yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Roedd hyn yn well na'r 85 y cant a gyflawnwyd yn 2011-12. Lleihaodd nifer yr achosion gorfodi heb eu cau am fwy na 12 wythnos o 92 yn 2011-12 i 59, sy'n sylweddol is na'r targed o 80. Fodd bynnag, ffigurau ar gyfer achosion newydd yw'r ffigurau yn ymwneud ag achosion gorfodi gan nad oes gan yr Awdurdod wybodaeth ddigonol i roi sicrwydd ynglŷn â dyddiadau cau rhai o'i achosion hŷn.

23 Cyfeiriwyd eisoes yn yr adroddiad hwn at lefelau boddhad ymgeiswyr. Mae'r Awdurdod yn awyddus i wella ei allu i gael adborth ar ei wasanaeth cynllunio, yn arbennig er mwyn gallu cymharu ag awdurdodau eraill. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cymryd rhan mewn menter i ddatblygu arolwg y gellid ei ddefnyddio ar gyfer pob awdurdod cynllunio yng Nghymru.

24 Mae ffactorau eraill a all helpu i lunio barn ar berfformiad gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod yn cynnwys y cyflawniadau canlynol:

- sicrhau bod cynigion cynllunio cynaliadwy yn cael eu cynnwys mewn caniatadau cynllunio;
- helpu i sicrhau bod tai fforddiadwy yn rhan o bob datblygiad unedau lluosog;
- cynnal cyfarfodydd bob chwe mis gyda chymdeithasau tai;
- datblygu dim ond yn y mannau agored hynny a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol.

## Roedd yr Awdurdod yn parhau i hyrwyddo mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a defnyddio'r Parc ac mewn nifer o achosion roedd hyn wedi arwain at fwy o gyfranogiad

25 Yn 2011-12, llwyddodd yr Awdurdod i ragori ar ei darged i gynyddu nifer y cyfranogwyr 'anodd eu cyrraedd' a gymerodd ran yn ei ddigwyddiadau a'i weithgareddau dros 30 y cant, sef cynnydd o bron 45 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Parhaodd yr Awdurdod â'r thema hon yn 2012-13 drwy bennu amcan gwella i geisio cynyddu a gwella cyfleoedd i grwpiau anodd eu cyrraedd ddeall a defnyddio'r Parc.

26 Mewn nifer o achosion, roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau partner. Yn gyffredinol, cyfrifodd yr Awdurdod ei fod wedi llwyddo i sicrhau cynnydd pellach o 31 y cant yng nghyfranogiad y grwpiau hyn, i fwy na 3,400 o gyfranogwyr. Mae'r Awdurdod wedi nodi ei fwriad i ennyn diddordeb 5,000 o unigolion anodd eu cyrraedd y flwyddyn erbyn 2013-14. Er gwaethaf ei lwyddiannau hyd yma, mae hon yn uchelgais heriol ond clodwiw iawn.

27 Cyflwynodd yr Awdurdod gais llwyddiannus am arian gan y Gronfa Loteri Fawr er mwyn sefydlu prosiect tair blynedd Eich Parc. Er mai dim ond hanner ffordd drwy'r flwyddyn y sefydlwyd y prosiect, amcangyfrifa'r Awdurdod fod mwy na 2,000 o unigolion na fyddai ganddynt fel arfer ddiddordeb yn y Parc wedi defnyddio cyfleusterau'r Parc. Roedd rhaglen Walkability yr Awdurdod, a sefydlwyd yn ystod hydref 2011-12, wedi cefnogi cyfleoedd cerdded â chymorth a goruchwyliaeth i dros 650 o bobl. Cynlluniwyd menter Walkability i hyrwyddo manteision cerdded i iechyd, gan ganolbwyntio ar y bobl hynny a all ei chael hi'n anodd manteisio ar gyfleusterau'r Parc oherwydd problemau iechyd, arian neu faterion eraill.

28 Mae enghreifftiau eraill o gyflawniadau mewn perthynas â'r amcan gwella hwn yn cynnwys:

- prosiect MOSAIC[4] a ariennir ar y cyd a ddenodd 135 o gyfranogwyr i ddigwyddiadau a gynhaliwyd o fewn y Parc;
- cynnwys dros 620 o gyfranogwyr, gan gynnwys pobl anabl, troseddwyr ifanc a phobl ag anawsterau dysgu, mewn digwyddiadau a drefnwyd a phartïon gwaith a gynhaliwyd gan barcmyn yr Awdurdod.

29 Er na chânt eu hystyried yn grwpiau 'anodd eu cyrraedd', mae gwaith yr Awdurdod gydag ysgolion uwchradd yn ennyn diddordeb ehangach yn y Parc a'i weithgareddau. Mae'r Awdurdod yn ymwneud â'r gwaith o baratoi gweithgareddau a thaflenni gwaith amrywiol a ddefnyddir fel rhan o waith cwrs daearyddiaeth TGAU. Mae llwyddiant y gwaith hwn wedi ysgogi rhai ysgolion i ofyn i'r Awdurdod ystyried datblygu gwaith tebyg ar gyfer myfyrwyr Safon Uwch.

4 Prosiect a gynlluniwyd i annog pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i wneud mwy o ddefnydd o'r hyn sydd gan Barciau Cenedlaethol i'w gynnig.

30 Yn fwy cyffredinol, llwyddodd yr Awdurdod i gynyddu cyfranogiad yn ei ddigwyddiadau dysgu o 8,573 yn 2011-12 i bron 9,300 yn 2012-13, gan ragori ar ei darged o 9,000 o gyfranogwyr. Mae buddsoddiad parhaus yr Awdurdod, yn ogystal â Chyngor Sir Penfro, yng nghynlluniau Lonydd Glas a Bysiau Arfordirol yn hyrwyddo cyfleoedd i ystod eang o bobl fanteisio ar gyfleusterau'r Parc. Cynyddodd nifer y bobl a ddefnyddiodd fysiau arfordirol i 86,000 yn 2012-13, o lai na 77,500 yn 2011-12, gan ragori ar darged yr Awdurdod o 80,000.

## Er nad yw'r Awdurdod eto wedi datblygu mesurau perfformiad yn ymwneud â'r Gymraeg, gwelwyd cynnydd bach yn nifer y staff sy'n siarad Cymraeg ac mae'n ystyried dulliau hyfforddi mwy effeithiol

31 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

32 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

33 Derbyniwyd adroddiad monitro blynyddol yr Awdurdod ar weithredu'r cynllun iaith Gymraeg yn brydlon yn 2013. Bu cynnydd bach yng nghyfran y gweithlu Cymraeg ei iaith, sef 23 y cant o gymharu ag 20 y cant yn 2011-12. Mae cwrs Cymraeg a fynychwyd gan staff yn y gymuned wedi dod i ben oherwydd diffyg galw. Mae'r Awdurdod yn ystyried dulliau hyfforddi eraill i wella sgiliau iaith y gweithlu. Nid yw'r Awdurdod wedi datblygu dulliau mesur perfformiad, a argymhellwyd yn 2012. Nodwyd hyn fel targed ar gyfer 2013-14. Bwriada gyflwyno system adnoddau dynol electronig newydd a fydd yn casglu gwybodaeth fanylach am sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r materion hyn.

## Cyhoeddodd yr Awdurdod asesiad addysgiadol o'r graddau y cyflawnodd ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13

34 Ym mis Ionawr 2014, gwnaethom ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod i'w hysbysu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- cyhoeddodd yr Awdurdod asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Gynllun Gwella - Rhan 2 2012/13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- roedd yr Adroddiad yn asesu perfformiad yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi sut roedd yr Awdurdod wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- roedd yr Adroddiad yn cynnwys gwerthusiadau cryno o gynnydd yn erbyn amcanion gwella'r Awdurdod, ynghyd â gwybodaeth am berfformiad mewn nifer o feysydd gan gynnwys cymariaethau, lle roeddent ar gael, gyda'i berfformiad ei hun yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- roedd yr Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion a oedd am roi adborth neu wneud sylwadau ar yr Adolygiad;
- roedd yr Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi ceisio cydweithredu.

35 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod yn ddiweddar ac yn seiliedig ar hyn, mae'r Archwilydd Penodedig o'r farn bod y datganiadau ariannol yn foddhaol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

## Mae cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwella yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac fe'u hategir gan ddull addawol o werthuso ei drefniadau llywodraethu a rheoli ei asedau

36 Gwnaethom ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod ym mis Medi 2013 i'w hysbysu o'n barn ar y trefniadau yr oedd yr Awdurdod wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau gwelliannau yn ystod 2013-14. Yn ein barn ni, roedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

37 Roedd amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14:

- wedi'u datblygu ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid ar lefel a oedd yn briodol i sefydliad cymharol fach;
- wedi'u datblygu ar y cyd ag aelodau a staff a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod wedi hynny;
- yn destun asesiad o'u heffaith ar gydraddoldeb cyn cael eu mabwysiadu;
- yn helpu i gyflawni rhai o'r canlyniadau a nodwyd yn strategaeth gorfforaethol yr Awdurdod;
- yn canolbwyntio'n gyffredinol ar ganlyniadau, yn hytrach na chamau gweithredu.

38 Roedd cynllun gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14:

- yn defnyddio fformat cryno a chlir a oedd yn hawdd ei ddarllen;
- yn cynnwys mesurau a thargedau, lle y bo'n briodol, ar gyfer ei amcanion gwella;
- yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall cymunedau neu randdeiliaid gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn;
- wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod a'i gyhoeddi ar ddechrau mis Mehefin, cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol.

39 Yn yr un llythyr mynegwyd ein barn bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2013-14. Daethom i'r casgliad hwn am fod yr Awdurdod wedi:

- cytuno ar gynllun gwella a oedd yn nodi cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer cyflawni gwelliannau;
- sefydlu mesurau a thargedau, lle y bo'n briodol, ar gyfer ei amcanion gwella;
- gwneud cynnydd o ran ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella nas gweithredwyd arnynt;
- wedi chwarae rhan weithredol mewn mentrau a gynlluniwyd i wella ansawdd ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

40 Cafodd Cynllun Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14 ei fabwysiadu a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ar 17 Mehefin 2013. Er iddo gael ei gyflwyno i'r aelodau ei gymeradwyo cyn hynny, cafwyd ceisiadau gan aelodau am ddiwygiadau er mwyn atgyfnerthu agweddau ar gyfraniad cymdeithasol ac economaidd y parc cenedlaethol. Er i'r newid hwn arwain at oedi, mae'n helpu i ddangos bod aelodau wedi cael eu cynnwys yn weithredol yn y gwaith o lunio'r Cynllun Gwella terfynol. Rhoddwyd copïau o'r Cynllun Gwella ar wefan yr Awdurdod ac yng nghanolfannau'r Awdurdod. Nid oedd copïau ar gael mewn mannau fel llyfrgelloedd ac nid oedd y Cynllun Gwella ar gael mewn Braille.

41 Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, roedd Cynllun Gwella'r Awdurdod yn ddogfen gryno a hawdd ei darllen a oedd yn nodi Canlyniadau Gwella'r Awdurdod, ynghyd ag Amcan Gwella blynyddol i helpu i gyflawni pob Canlyniad Gwella. Mae'r Awdurdod hefyd yn llunio Strategaeth Gorfforaethol, sydd unwaith eto'n nodi ei Ganlyniadau Gwella ond heb gyfeirio at ei Amcanion Gwella blynyddol. Gwelwyd llawer o debygrwydd rhwng y ddwy ddogfen hyn ond gwelwyd hefyd nifer o anghysondebau dryslyd. Er nad oedd yr anghysondebau hyn o bwys arbennig, roeddem o'r farn bod cael dwy ddogfen a oedd, i bob pwrpas, yn mynd i'r afael â'r un materion yn ddryslyd. Teimlwyd ei bod yn debygol y byddai hyn hefyd yn peri dryswch i staff ac aelodau. Mae'r Awdurdod wedi dechrau cyfuno'r dogfennau hyn.

42 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella i'r Awdurdod, dyddiedig 23 Medi 2013, nodwyd bod yr Awdurdod, wrth ddechrau defnyddio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol i werthuso ei drefniadau, mewn sefyllfa well i wella'r meysydd hynny sydd leiaf effeithiol. Ers anfon y llythyr hwnnw, mynychodd cynrychiolwyr o'r Awdurdod, ynghyd â'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru, weithdy a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru gyda'r nod o helpu'r awdurdodau hynny i ddatblygu Datganiadau Llywodraethu Blynyddol mwy gwerthusol yn y dyfodol. Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru bellach yn cydweithio er mwyn gwella'r ffordd y maent yn cyflwyno adroddiadau blynyddol ar eu trefniadau llywodraethu, gan ystyried yr opsiwn o ddatblygu strwythur adrodd tebyg.

43 Yn ystod mis Ionawr 2014, gwnaethom gynnal adolygiad byr o drefniadau rheoli asedau'r Awdurdod. Yn sgil yr adolygiad hwnnw cyflwynwyd adroddiad ar wahân i'r awdurdod. Daethom i'r casgliad bod y rhan fwyaf o drefniadau rheoli asedau yr Awdurdod yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a gwella effeithiol, ond y gellid eu hehangu i roi darlun ehangach o faint, natur a pherfformiad y portffolio. Daethom i'r casgliad hwnnw am y rhesymau canlynol:

- Mae polisi rheoli asedau'r Awdurdod yn cefnogi gwelliant ac yn seiliedig ar arfer da, fodd bynnag, gallai bennu cyfeiriad cliriach a chynnwys cyfres o amcanion ffurfiol ar gyfer rheoli asedau eiddo yn barhaus.

- Diffinnir rolau a chyfrifoldebau am reoli asedau yn glir. Fodd bynnag, gellid cydgysylltu materion yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu mewn ffordd fwy strategol.
- Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau bod ei asedau yn cael yr effaith fwyaf bosibl.
- Mae'r Awdurdod yn rheoli perfformiad ei asedau yn effeithiol mewn rhai meysydd ac yn rhoi ystyriaeth weithredol i faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd.

44 O ganlyniad i'n hadolygiad o drefniadau rheoli asedau, nodwyd un cynnig ar gyfer gwella.

## Mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o heriau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf ond mae'n rhy gynnar i ddweud i ba raddau y byddant yn effeithio ar allu'r Awdurdod i sicrhau gwelliannau

45 Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn wynebu rhai newidiadau sylweddol yn y dyfodol, gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus ('Adroddiad Comisiwn Williams') a chanlyniad ymgynghoriad ar Fil Cynllunio newydd arfaethedig. Bwriedir cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu awdurdodau parciau cenedlaethol hefyd.

46 Yn gyffredinol, mae'r newidiadau a gynigiwyd gan Gomisiwn Williams a allai effeithio ar awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn llai sylweddol nag y gellid bod wedi eu disgwyl. Nid argymhellodd Comisiwn Williams y dylid cymryd y swyddogaeth gynllunio oddi ar awdurdodau parciau cenedlaethol ond awgrymodd y dylid ystyried opsiynau ar gyfer creu un awdurdod parc cenedlaethol. Mae'r Awdurdod, ynghyd â'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru, wedi cyflwyno ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Cynllunio arfaethedig.

47 Er bod yr Awdurdod yn ymwybodol o newidiadau sylweddol a allai gael effaith sylfaenol ar y ffordd y mae'n gweithredu ac, yn wir, ei fodolaeth, newidiadau ar gyfer y dyfodol yw'r rhain ac, am y tro, ei brif ffocws yw'r toriadau cyllidebol sy'n ei wynebu dros y ddwy flynedd nesaf, ac o bosibl y tu hwnt i hynny.

48 Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys adolygiad o wariant 2010 i'r senedd ar 20 Hydref 2010. Roedd hyn yn rhan ganolog o ymateb y llywodraeth glymblaid i'r angen i leihau'r diffyg cenedlaethol, gyda'r bwriad o fantoli arian cyhoeddus. Yr arbedion hyn yw'r lleihad mwyaf mewn gwariant cyhoeddus ers y 1920au ac maent yn dod ar adeg pan fo newidiadau demograffig a phwysau economaidd sy'n gysylltiedig â'r dirwasgiad yn cynyddu'r galw am rai gwasanaethau. Er mwyn cynllunio cyllid yn effeithiol dylai awdurdodau ddadansoddi manylion am dueddiadau ariannol, gwybodaeth feincnodi briodol, senarios posibl a'u heffaith debygol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliad anodd diweddar i awdurdodau yn golygu bod gwaith cynllunio ariannol da yn hanfodol i gynnal cydnerthedd ariannol.

49 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n ystyried iechyd ariannol awdurdodau, eu dulliau cyllidebu ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn rhoi sicrwydd bod awdurdodau yn ariannol gydnerth. Bydd y gwaith hwn yn ystyried p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyllidebau 2013-14. Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

50 Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn wynebu toriadau cyllidebol sylweddol yn ystod blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16. Gwnaed y toriadau gan Lywodraeth Cymru, heb roi unrhyw sicrwydd na fydd angen toriadau pellach mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r toriadau yn cyfateb i ostyngiad o 8.75 y cant yn 2014-15 a 4 y cant arall yn 2015-16. O ran yr Awdurdod hwn, mae hyn yn gyfystyr ag ychydig yn llai na £600,000 dros ddwy flynedd. Gan fod canran sylweddol o gyllideb yr Awdurdod yn cynnwys costau staff, mae'n anochel y bydd yr arbedion yn effeithio ar lefelau staffio, gydag effaith ganlyniadol ar y gwasanaethau a ddarperir.

51 Wrth ystyried yr opsiynau oedd ar gael i wneud arbedion,roedd yn ddealladwy i'r Awdurdod sicrhau bod rhai o'r cynigion a drafodwyd yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Roedd y cyfrinachedd hwn yn ymwneud yn bennaf â'r elfennau hynny o'r toriadau cyllidebol a fyddai'n effeithio'n bersonol ar rai unigolion a gyflogir gan yr Awdurdod.

52 Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid oedd yr union drefniadau i gyflwyno'r toriadau cyllidebol wedi'u cadarnhau na'u rhannu â'r staff perthnasol. Fel y cyfryw, byddai'n amhriodol eu nodi'n fanwl yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, wrth weithio tuag at benderfyniad terfynol, mae'r Awdurdod wedi cynnwys staff, aelodau ac undebau llafur er mwyn llunio nifer o opsiynau i ganfod yr arbedion gofynnol.

53 Yn gyffredinol, nod yr Awdurdod yw rheoli'r broses fel bod y prif benderfyniadau a fyddai'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu hoedi tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2014-15 a dechrau blwyddyn ariannol 2015-16. Er mwyn helpu i wneud hynny, mae'n bwriadu cynnig hanner ei gronfa datblygu cynaliadwy gwerth £200,000 fel toriad cyllidebol. Cytunwyd ar hyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod hefyd yn bwriadu ailddyrannu dros £116,000 o'i arian refeniw fel gwariant cyfalaf, gan ei fod yn bodloni'r diffiniad o wariant cyfalaf. Bydd hyn yn ymwneud â materion megis cynnal a chadw adeiladau, prosiectau hawliau tramwy a gwariant ar gyfarpar TG. Cred yr Awdurdod fod hon yn ffordd ddilys o ailddyrannu arian gan fod cyfran sylweddol o'r gwaith a wneir o dan y penawdau hyn yn ymwneud â phrosiectau cyfalaf ar wahân

54 Dyfarnwyd Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Awdurdod yn 2011. Er y gallai'r Awdurdod bellach wneud cais am y Siarter Uwch, mae'n bwrw ymlaen â chais adnewyddu. Y prif reswm am hyn yw bod nifer sylweddol o aelodau newydd wedi'u penodi i'r Awdurdod ers i'r siarter gychwynnol gael ei dyfarnu.

55 Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, dim ond chwech o 18 o aelodau'r Awdurdod oedd wedi cwblhau eu hadolygiadau datblygiad personol. Gan gydnabod bod hyn yn rhywbeth y mae angen mynd i'r afael ag ef, mae'r Awdurdod yn ystyried mabwysiadu dull hunanasesu a ddefnyddir gan rai awdurdodau eraill.

56 Ni chynhaliwyd yr adolygiad arfaethedig o gylch gorchwyl amrywiol bwyllgorau'r Awdurdod yn ystod hydref 2013, yn ôl y bwriad. Cododd y mater hwn ar ôl i'r Awdurdod sefydlu tri phwyllgor newydd i gymryd lle'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad, gyda phob un yn gweithredu fel pwyllgor craffu ac yn canolbwyntio ar agwedd wahanol ar waith yr Awdurdod. Yn ystod cyfarfod llawn yr Awdurdod ar 5 Chwefror 2014, addawodd yr Awdurdod  i leihau nifer y pwyllgorau adolygu hyn i ddau, gyda naw aelod ar bob un, a fyddai'n cyfarfod bob chwarter. Bydd y newid hwn yn arwain at adolygiad o gylch gorchwyl y pwyllgorau hyn.

57 Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chyflwyno'r broses arfarnu 360 gradd[5] a dreialwyd ganddo gyda'i arweinwyr tîm yn 2013. Mae hyn yn rhannol oherwydd y newidiadau staff anochel a fydd yn deillio o'r toriadau cyllidebol ond hefyd am fod hyn yn rhoi cyfle i adolygu'r math o gwestiynau a ofynnir ac ystyried dull gweithredu ychydig yn wahanol yn y dyfodol.

58 Mae grŵp arwain yr Awdurdod yn parhau i adolygu cynnydd ei drefniadau ar gyfer diweddaru ei bolisïau a'i weithdrefnau, eu rhesymoli a sicrhau eu bod yn gyson. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2014-15 a disgwylir i'r fframwaith polisïau gael ei symleiddio'n sylweddol. Mae'r Awdurdod wrthi'n ailadeiladu ei fewnrwyd ac mae'n cydnabod y cyfleoedd y bydd hyn yn eu cynnig o ran sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau wrth gyflawni eu gwaith.

59 Mae'r Awdurdod wedi addo y bydd yn dechrau paratoi ar gyfer adolygiad rhannol o'i Gynllun Datblygu Lleol, ond ni chytunwyd ar ddyddiad dechrau ffurfiol ar gyfer y broses eto. Bydd yn ofynnol i'r Awdurdod gynnal adolygiad llawn yn ystod y flwyddyn nesaf. Gan y bydd cynnal hyd yn oed adolygiad rhannol yn defnyddio llawer o adnoddau staff ac aelodau, mae'r Awdurdod yn ystyried a fyddai'n fwy priodol cynnal yr adolygiad llawn yn gynt. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid i unrhyw benderfyniad ynghylch y dull mwyaf priodol o weithredu aros hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chanllawiau drafft ar adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol.

60 Ar ôl rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o ymgynghori ar faterion cynllunio yn y gorffennol, mae'r Awdurdod yn ystyried defnyddio dull wedi'i ddiweddaru o gynnal arolygon y gellid ei gymhwyso ledled Cymru. Mae'r opsiynau'n cynnwys addasu arolygon a ddefnyddiwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol yn Lloegr neu gallant ddeillio o waith parhaus gydag Uned Ddata Llywodraeth Cymru[6].

61 Mae Ffynnon yn ddatrysiad meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol i fodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru a'u partneriaid.  Mae wedi bod yn cael ei ddefnyddio gan bob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru ers sawl blwyddyn.  Fodd bynnag, daw contract Llywodraeth Cymru gyda Coactiva Aspiren Ltd i gyflenwi system rheoli perfformiad

5 System lle mae staff yn cael adborth gan reolwyr llinell ac yn rhoi adborth iddynt.

6 Cwmni dielw yn y sector cyhoeddus sy'n rhoi cyngor, canllawiau a chymorth i lywodraeth leol yng Nghymru ynghylch data a materion ystadegol.

meddalwedd Ffynnon i ben ar 30 Mehefin 2014. Byddai'r ffaith nad oes meddalwedd addas ar gyfer trin gwybodaeth yn cael cryn effaith ar allu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad ac adrodd arno. Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn ystyried yr opsiwn i ddefnyddio contract pontio a allai sicrhau'r system rheoli perfformiad dros y ddwy flynedd nesaf. Deallwn fod y system hon bellach wedi'i sicrhau am gyfnod o 12 mis.

62 Comisiynodd tri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru astudiaeth o'r cyfleoedd cydweithio ar gyfer adrannau cynllunio tri Pharc Cenedlaethol Cymru[7]. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Awst 2013. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o argymhellion a 'gwelliannau cyflym'. Croesawyd canfyddiadau'r adroddiad yn gyffredinol gan bob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru ac maent wedi dechrau ystyried ar y cyd sut y gellid gweithredu ar rai o'r argymhellion, gyda phob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn arwain gwahanol elfennau. Mae'r rhain yn cynnwys opsiynau ar gyfer adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol ac ymgynghori ar y cyd, ac opsiynau ar gyfer rhannu gwasanaethau a staff.

7 Cynhaliwyd gan Land Use Consultants.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae'r Awdurdod yn gwario tua £5.3 miliwn y flwyddyn (2013-14). Mae hyn yn cyfateb i tua £238 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd yr Awdurdod hefyd wedi bwriadu gwario £1.2 miliwn ar eitemau cyfalaf[8].

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 12 o aelodau etholedig a benodwyd gan Gyngor Sir Penfro a chwech a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r aelodau hyn yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau.

Prif Weithredwr yr Awdurdod yw Tegryn Jones. Cyfarwyddwr Cyfeiriad a Chynllunio'r Parc yw Jane Gibson. Y Cyfarwyddwr Cyflawni a Chanfod yw James Parkin, y Pennaeth Rheoli Busnes yw Alan Hare, a Richard Griffiths yw Rheolwr Cyllid yr Awdurdod.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan yr Awdurdod yn www.pembrokeshirecoast.org.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod yn Swyddfeydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY.

8 Data ariannol a data poblogaeth a gafwyd o wefan StatsCymru Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr T Jones
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Annwyl Mr Jones

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Awdurdod y Parc â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'i ddefnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae Awdurdodau yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 30 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd y materion allweddol a ddeilliodd o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod ar 18 Medi 2013 yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (ISA260). Roedd y prif faterion a gododd fel a ganlyn:

- Nodwyd un mân 'camddatganiad nas cywirwyd' yn ymwneud â gwariant ar brydlesu cerbydau a chyfarpar wrth ailarfarnu'r modd y dehonglwyd y canllawiau cyfrifyddu perthnasol.
- Roedd nifer fach o 'gamddatganiadau a gywirwyd'.
- Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y wybodaeth a roddwyd i'w harchwilio yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall, ac roedd yn adlewyrchu'n dda ar adran a oedd wedi wynebu pwysau arbennig yn ystod y flwyddyn.
- Ni ddeuthum ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod ein harchwiliad. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. Mae'r trefniadau gwaith effeithiol a sefydlwyd gyda staff cyllid wedi parhau ar gyfer y flwyddyn hon.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 11 Hydref 2013. Ni fu unrhyw her na gwrthwynebiad ffurfiol y bu'n rhaid i mi ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn. Bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodwyd yn fy Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau staff yr Awdurdod a fu o gymorth wrth gwblhau fy archwiliad.

Yn gywir

**Richard Harries, Arweinydd Ymgysylltu**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
6 Rhagfyr 2013

cc: Richard Griffiths, Rheolwr Cyllid

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei *Gynllun Gwella Rhan 1 2013/14* sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn www.pembrokeshirecoast.org.uk. Maent fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 | Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 |
|---|---|
| Monitro a gwella lefel y gwasanaeth i gwsmeriaid a boddhad cwsmeriaid wrth gyflawni'r Canlyniadau Corfforaethol | Adolygu o leiaf 50% o'r safleoedd a reolir yn ystod 2013/14 a nodi unrhyw fethiant i gyflawni amcanion eu cynllun rheoli. |
| Cynyddu canran y llwybrau sydd ar agor ac y gellir eu defnyddio a fesurir yn erbyn y meini prawf diwygiedig, i 85%. | Datblygu rhwydwaith o hawliau tramwy sydd ar agor, y gellir eu defnyddio, sydd ag arwyddion addas, ac sydd mewn cyflwr derbyniol gydag o leiaf 80% o'r rhwydwaith llwybrau ar agor ac yn cyrraedd safon yr Awdurdod erbyn mis Mawrth 2014. |
| Parhau i ddatblygu a gwella perfformiad y gwasanaeth cynllunio. | Darparu ein gwasanaethau mewn modd sy'n gwella lles economaidd-gymdeithasol trigolion y Parc Cenedlaethol ac ymwelwyr â'r Parc. |
| Cynyddu a gwella'r cyfleoedd i grwpiau 'anodd eu cyrraedd' ddeall a defnyddio'r Parc Cenedlaethol. | Cynnal a gwella lefelau boddhad cwsmeriaid â'n gwasanaethau. |

## Hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad

Mae hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn ystod 2012-13 wedi'i gynnwys yn ei *Gynllun Gwella - Rhan 2 2012/13* sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn www.pembrokeshirecoast.org.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk